**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR CHAMBERS LANE, MYNYDD ISA**

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a’r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Sebra i Gerddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Chambers Lane, Mynydd Isa fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan sebra.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan barhaol yn y lleoliad y mae Hebryngwr Croesfannau Ysgol yn weithredol ar hyn o bryd, a fydd yn helpu siwrneiau cynaliadwy i’r ysgol. Bydd y cyfleuster o fudd nid yn unig i blant sy’n teithio’n ôl ac ymlaen i’r ysgol ar amseroedd dechrau a gorffen arferol yr ysgol, ond hefyd y rhai sy’n mynychu clybiau bore neu ar ôl ysgol pan nad oes hebryngwr ar ddyletswydd neu yn ystod absenoldebau. Bydd hefyd yn gwasanaethu’r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y gwaharddiad arferol ar gerbydau yn parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y brifforddd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar ddwy ochr y groesfan, yn weithredol.

Gellir archwilio copi o’r Rhybudd hwn a chynlluniau sy’n dangos y ffordd y mae’r cynnig yn effeithio arni, yn ystod oriau agor arferol yn y Canolfannau Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, The Precinct, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF .Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.


Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r cynnig arfaethedig, yn ogystal â’r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024 neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/CLMI/Zebra.

**ATODLEN**


**Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr**

**Chambers Lane Mynydd Isa** – gerllaw eiddo Silver Latches.

Dyddiedig 11 Hydref 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint. CH7 6NR




Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | KJ |
| CHECKED BY: | CP |
| SCALE: | NTS |
| NAT. GRID REF: | N/A |

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

Proposed zebra crossing
Chambers Lane, Mynydd Isa

(Sheet 1 of 1)

| DRAWING NUMBER | | | |
|---|---|---|---|
| | HT/11/0000 | 101 | C1 |